# MEDDYLIAU GALARUS,

AR FARWOLAETH Y

# Parch, David Thomas,

GWEINIDOG DUW

YN

*SARON, TROEDYRHIW, MORGANWG,*

Yr hwn a fu farw, Hydref, 6, 1843, yn 29 oed.

---

## GAN JOHN EVANS, MAENDY.

---

Derbynwyd ef yn Aelod yn Hermon ger Llandilo, gan y Parch, D. Jones, Cerrig y Bar (nawr o'r Aber), pan yn bedair ar ddeg oed, bu yn bregethwr cynorthwyol am flynyddau yn yr Eglwys hono a'r Eglwysi cymdogol, ac agos i dair blynedd yn weinidog yn Troedyrhiw, yn ffyddlon a pharchus iawn, claddwyd ef gan ei Eglwys yn barchus mewn *Vault* o *fricks* dan y *Pulpit*, gweinyddodd wyth o Weinidogion yn ei Angladd.

---

1 Byr yw dyddiau te'ithio 'r ddaiar,
  Darfod maent o un i un;
Megis cysgod yn mynd heibio,
  Bron cyn deffro sylw dyn;
Tragwyddoldeb yw ei gartref,
  Nid ei gartref yma sydd;
Sefyll byth am oes yr oesau
  Yn ei gartref bythol bydd.

15668

15608



pWG 16·12

2 Dim ond yma yn ymddangos
Ennyd fechan ar y llawr,
Prin yr olwg a geir arnom,
Colli r olwg arnom mawr;
Mynd i olwg tragwyddoldeb
Yno golwg arnom fydd,
Yno gwelir byth beth ydym
Gweled iawn yngolau'r dydd.

3 Heddyw clai yn byw a rhodio
Fory 'n gorwedd yn y bedd,
Pob gwahaniaeth gwedi darfod,
Pawb yn ddistaw iawn mewn hedd;
Cysgu 'n dawel fwyn mae'r baban
Yn ei gawell priddlyd o'r;
Llawn mor dawel y mae'r *Warrior*
Fu 'n dychrynu tir a môr.

4 Yno gorphwys wedi blyno
Lu o wyr y cystydd mawr,
Rhai fu'n teithio dyffryn Baca
Wedi gorwedd yma i lawr;
Pob rhyw gystudd wedi darfod
Pob rhyw ofyd pob rhyw groes,
Darfu'r rhyfel poeth a'r wylo
Darfu teimlo pob rhyw loes.

5 Sion, Sion, ti gest golled
Colled fawr i'n golwg ni;
Colli milwyr o'r ffyddlona
Rhai oedd flaena yn y llu;
Cawd flyneddau i alaru
Dyddiau galar sy'n parhau,
Ydwy'r galar ddim bron darfod,
Pryd daw dyddiau llawenhau.

6 Galar mawr sydd yn y Gogledd
Galar mwy sydd yn y De,
Collwyd Gweinidogion anwyl
Anwyl weision Brenin ne;

UNIV. COLL. OF WALES
LIBRARY
NOV 1 ? 1966

Rhai oedd berchen dawn ac ysbryd
Ysbryd llawn o'r nefol dan,
Ar y muriau mawr yn bloeddio,
"Cyfod Sion dere ymlan."

7 Williams * ddoniol, Christmas Evans,
John Elias fwyn o Fon;
Tri oedd hynod yn y gwersyll
Gwersyll hyfryd adfwyn O'n;
Phillips‡ enwog per ddifeinydd
Breeze Caerfyrddin ddwfwn ddawn,
Owens addfwyn o'r Bwlchnewydd,
Jones o'r Pentre fedrus iawn.

8 Hughes o'r groes ai ddoniau peraidd,
Doniau dyfir nefol Fon,
Ef yn bloeddio chwys yn treiglo
Dyrfa 'n wylo 'n braf oi bron;
Evans Soar, Jones Bethesda,
Howells Baran gyda hwy,
Jones o Dalgarth, Williams Bethlem,
Gyda ni nid ydynt mwy.

9. Yn y bedd fe ro'wd i orwedd
Och olygfa syn ges I,
Rhoi fy ffyddlon gyfaill anwyl
Thomas yn y ddaiar ddu;
Yn y *gromgell* dan y *Pwlpit*,
Cysgu yn ei newydd fedd;
Daw i fynu forau'r codi,
Lwch o lwch ar newydd wedd.

10 Ffydlon ydoedd llawn o ymdrech
Gwneid daioni oedd ei fryd,
Achos Iesu ar ei galon
Wylai dros drueni'r byd;
Cyfaill mwynaidd cywyr onest
Siriol Seren olau fu,
Llawn o zel a bu'n ddefnyddiol,
Tra fu yma gyda ni.

* Wern. ‡ Neuadlwyd.

11 Ofon duwiol yn ei galon,
Cadwai 'n agos at ei Dduw,
Bywyd duwiol oedd ei fywyd,
Byw i'r nefoedd oedd ei fyw;
Byw yn agos i Galfaria
Byw yn ymil angau loes,
Man disgwyliau gael ei fywyd
Ydoedd rhinwedd iawn y groes.

12 Fe adawodd ber arogledd
Ar ei ol y manau bu,
Teithiodd lwybrau uniawn crefydd
Trwy'r anialwch dyrus du;
Er pan *startodd* ma's o Sodom
Maes o wlad y mwg a'r tan,
Hyd nes cyraedd pen y mynydd
Cadwodd ef ei wisg yn lan.

13. Ond mae heddyw wedi diangc
Diangc draw tu fewn i'r llen,
Gadel gofyd yn yr anial
Cyraedd mwyniant nefoedd wen;
Tawel groesodd y'r Jorddonen
Laniodd trwy ei chenllif du,
Craig yr oesoedd fawr ai daliodd
Yn ei thonau geirwon cry.

14 Profi gadd o loes yr angau
Angau heb ei ddamniol loes,
Tynwyd colyn angau creulon
Gan briod Sion ar y Groes;
Y mae'r wylo wedi darfod
Nid oes wylo yn y nef,
Darfu'r wylo yn yr afon
Sychodd Duw ei ddagrau ef.

15 Yr oedd yn anwyl gan ei frodyr,
Un or brodyr ydoedd ef,
Yr oedd yn ffyddlon gydai frodyr
Tra bu yma is y nef;

Cadd yr ysgol cadd y canu,
 Ganddo ef anogaeth lawn ;
Diwyd fuodd yn y winllan,
 Eitha hyd ei ddydd ai ddawn.

16 Collwyd Dafydd y mae galar
 Ond nid galar yw i gyd,
Nid troi gefen ar y fyddin
 Mynd i fyddin ddu y byd ;
Marw wnaeth yngalon Sion
 Marw yn ei gyflawn glod,
Fei cynnalwyd hyd y diwedd,
 Nid oes ofnu mwy yn bod,

17 Mae fy mrodyr wedi blaenu
 Mewn i dir y bywyd draw,
Wedi cwrdd ar dorf aneiryf
 Syn preswylio'r byd a ddaw ;
Perffaith frodyr o'r un anian,
 Tyrfa hardd a'u gwisg yn wen ;
Aur delynau yn e'u dwylaw
 A choronau ar e'u pen.

18 Faeth yw'r awr delynau hyfryd
 Faeth ganiadau yno sydd,
Faeth yw'r felus fwyn gymdeithas
 Sydd gan deulu'r hanner dydd ;
Myrdd myrddyniau ydyw 'r dyrfa
 Iechydwriaeth yw e'u can,
Molu 'r Duwdod yn y dyndod
 Mil mwy hyfryd nag o'r blan.

19 Llawn o gariad pur a heddwch
 Ac hyfrydwch yw e'u gwlad,
Feiddia'r hen genfigen bigog
 Fyth roi thro'd yn nhy fy Nhad ;
Hunan hy a'r balchder ysbryd
 Opyniynau brwnt eu blas,
Bleiddiau blynion sy'n ein dilyn
 Yno wedi cauad mas.

20 Mae eiddigedd yn fy nghalon
Gweld fy mrodyr draw o mlan,
Ngadel innau yn yr annial
Yn y dwr ac yn y tan;
Gwisgo'a goron canu'r gongwest,
Gado nol yr anial hyn;
Gwell cyfeillion a chyfeillach
Nac oedd yma yn y glyn.

21 Sefwch yna yn y gwynfyd,
Nid wyf am eich tynu lawr,
Och anneddau nefol dawel
I'drabaeddu 'rhyd y llawr;
Am roi naid 'rwyf dros yr afon,
Ofni dyfroedd dyfnion hi,
Chwant y wlad ac ofni'r siwrnau,
Awydd am fod gyda chwi.

22 Y mae'r Bugail mawr tragwyddol
Heddyw 'n eiriol yn y nef,
Dadleu gwerth ei waed a'i glwyfau
Dros drueiniaid gwan e'u llef;
Pwy a wyr er maint y rhwystrau,
Pwy a wyr na chaiff y gwan,
Sydd bron methu ac anadlu,
Ddod o'i anial blyn i'r lan.

23 Eglwys Saron sy'n galaru
Am ei hanwyl fugail cu,
Minau ddeuaf i alaru
Ac i gwyno gyda chwi;
Un dros Dduw oedd ef i ddynion,
A thros ddynion at ei Dduw,
Ar yr adwy fawr yn sefyll
Rhwng y meirw a'r rhai byw.

24 Nodded nefol rad rhagluniaeth
Fyddo a'r ei weddw ef,
Ei ymddifad gaffo nabod
Duw yn Dad sef Tad o'r nef;

Tad am ddifaid ydyw'r enw
Enw anwyl hyfryd yw,
Barnwr gweddwon mewn addewid
Hen addewid roddodd Duw.

25 Pa'm mae Sion fel yn cysgu,
Pa'm mae gwersyll Duw mor slo;
Rhyw benwyni wedi ymdanu
Dros y bryn a thros y fro;
Och fy Arglwydd beth sy'n dyfod,
Oes rhyw storom fawr yn dod;
Nerth i gwympo yn isel isel
Cwympo yn isel wrth ei drod.

26 Er fod milwyr wedi cwympo,
Ffydlon filwyr etto yn bod;
Fedrant saethu drwch y blewyn
Nelu 'r ergyd at y nod;
Y mae'n hoes yn oes y doniau
Oes o weithio ar y mas,
Gyda'r gweithio chwythed awel
Awel nefol ddwyfol ras.

27 Sion, Sion, mae'r addewid
Hen addewid fawr y nef;
Bydd i'r dylanwadau nerthol
Gael eu harllwys lawr o'r nef;
Argoeddiadau golau dwyfol
Nerthoedd mawrion nef y nef;
Nes bo bywyd a gorfoledd
Gyda eiriau hyfryd ef.

28 Y mae'r arfaeth fawr yn feichiog
Hi wna esgor cyn bo hir,
Ar ryw ddyddiau golau hyfryd
Dyddiau llwydiant yn y tir;
Fe ddaw fyny'r deg a thrigain,
Amser cofio Sion wan;
Gwelir Sion mewn gogoniant
Yn ben moliant yn y man.

29 Aiff Efengyl byd derfynau
    Hyd derfynau eitha'r byd,
Fe gyhoeddir lle bo dynion,
    Fwyn rinweddau'r Aberth drud;
Daw'r anialwch i flodeuo
    Gwelir egin hyfryd gras,
Llifa afon Iechydwriaeth
    Dros y crasdir orindir cras.

*W. Leyshon, Argraffydd, Pen-y-bont.*